Camau Cynaliadwy Cymru - Grantiau Gweithredu a Grantiau Egin

Astudiaeth Achos - Ymddiriedolaeth Innovate: Un Blaned

Tachwedd 2025

severn wye

Asedau Segur
Camau Cynaliadwy Cymru

Dormant Assets
Sustainable Steps Wales

Ddarperir gan
CRONFA GYMUNEDOL
LOTERI GENEDLAETHOL

Delivered by
THE NATIONAL LOTTERY
COMMUNITY FUND

1. Y Mudiad

Mae Ymddiriedolaeth Innovate yn ddarparwr byw â chymorth sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu, awtistiaeth, ac anghenion ychwanegol eraill i gyflawni annibyniaeth yn y ffordd maen nhw ei eisiau.

Dechreuodd y mudiad fel prosiect gwirfoddoli myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd ym 1967. Hon oedd yr elusen gyntaf yn y DU i sefydlu cartref byw â chymorth.

2. Y Prosiect

Dyfarnwyd £148,000.00 i Ymddiriedolaeth Innovate dros 3 blynedd (Gorffennaf 2023 –Awst 2026) o raglen Grantiau Gweithredu Camau Cynaliadwy Cymru. Rhagwelir y bydd cyfanswm cost y prosiect yn £194,800.00, gyda'r arian cyfatebol yn dod o gronfeydd wrth gefn Ymddiriedolaeth Innovate.

Nod prosiect Un Blaned yw galluogi 300 o unigolion ag anableddau dysgu o bob cwr o Gymru i gymryd camau gweithredu ar yr hinsawdd a byw'n fwy cynaliadwy. Mae gan y prosiect 4 canlyniad allweddol.

Canlyniad 1: Lleihau'r Defnydd o Ynni.

pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr yn cael eu cefnogi i leihau eu defnydd o ynni a dysgu sut i fyw'n fwy cynaliadwy.

Canlyniad 2: Economi Gylchol

Cefnogir cyfranogwyr i leihau faint o wastraff maen nhw'n ei waredu a dysgu am Leihau, Ailddefnyddio, Ailgylchu ac Adfer (y 4R yn Saesneg - Reduce, Reuse, Recycle, Recover).

Canlyniad 3: Trafnidiaeth Gynaliadwy

Anogir cyfranogwyr i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn amlach a dewisiadau trafnidiaeth amgen fel cerdded a beicio.

Canlyniad 4: Garddio Carbon Isel

Mae pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr yn cael eu cefnogi i arddio mewn ffordd carbon isel, gan gynnal mentrau sydd â budd uniongyrchol a phrofedig ar yr hinsawdd.

Mae Grant Gweithredu Camau Cynaliadwy Cymru yn cael ei ddefnyddio i ariannu swyddog prosiect llawn amser, cynorthwyydd prosiect rhan-amser, costau recriwtio, ffioedd hyfforddi, teithio, marchnata, monitro a gwerthuso, cyfieithu ac offer TG.

3. Cynnydd hyd yma

Erbyn diwedd Blwyddyn 2 (Gorffennaf 2025), roedd Ymddiriedolaeth Innovate wedi cofnodi 453 o unigolion a rhwydwaith o fudiadau a oedd yn ymwneud â'r prosiect.

Roedd mwy na 75% o'r unigolion hyn yn newydd i sgyrsiau hinsawdd. Mae Ymddiriedolaeth Innovate yn gweithio'n agos gyda rhwydwaith o asiantaethau atgyfeirio, mudiadau trydydd sector eraill, (er enghraifft Gardd Gymunedol Meadow Street ym Mhontypridd a Fferm Flodau Coalfield yn Nhonyrefail) a'r sector cyhoeddus (er enghraifft Timau Ceidwaid Parc Caerdydd a'r Fro).

Lleihau'r Defnydd o Ynni

- Llyfryn arbed ynni sy'n cynnwys heriau ynni i gyfranogwyr ei ddefnyddio mewn lleoliad cartref.
- 54 sesiwn cartref.
- 22 gweithdy lleihau ynni.

Cyfranogwr Un Blaned gydag Adnoddau Arbed Ynni

Economi Gylchol / Gweithgareddau Lleihau Gwastraff

- 85 o weithdai lleihau gwastraff a gynhaliwyd dros y ddwy flynedd gyntaf ar bynciau gan gynnwys bwyta'n iach/lleihau gwastraff bwyd, gwaith coed (er enghraifft adeiladu blychau compost), sgiliau gwnïo sylfaenol.
- 3 sesiwn casglu sbwriel.
- 49 o ymweliadau cartref ar y pynciau a drafodwyd yn y gweithdai naill ai 1:1 neu gyda grŵp bach o gyd-denantiaid fel ffordd o ymgorffori dysgu.
- Ymweliad â safle trin Dŵr Cymru i ddysgu mwy am sut mae gwastraff yn cael ei reoli.

Trafnidiaeth Gynaliadwy

- 20 sesiwn teithio ymarferol, yn canolbwyntio ar un agwedd (rheilffordd, bws a beicio) gan gynnwys ym Mlwyddyn 1, 5 sesiwn gyda phobl sy'n gweithio ym maes teithio a oedd yn cynnwys cwrdd â staff Trafnidiaeth Cymru er enghraifft cwrdd â staff ar fwrdd trenau a chyfarwyddo pobl â pheiriannau tocynnau.
- 37 o ymweliadau cartref i gefnogi teithio cynaliadwy.
- 2 weithdy teithio cynaliadwy mewn lleoliad cymunedol.
- 4 sesiwn o gwrs hyder teithio.
- 11 taith gerdded grŵp ac ym Mlwyddyn 1 cymerodd 17 o bobl ran mewn her cerdded a chylchdroi.

Cyfranogwr ac Aelod o Staff Trafnidiaeth i Gymru

Garddio Carbon Isel

- 23 sesiwn ymarferol yn y gymuned gyda thimau ceidwaid Parc Caerdydd a'r Fro, a Choed Caerdydd.
- Cymorth i fudiadau trydydd sector eraill sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu, er enghraifft rhandir cymunedol yn y Barri, Bro Morganwg.
- 29 sesiwn ar arddio carbon isel.
- 19 sesiwn rhandir cymunedol.
- 28 ymweliad cartref i gefnogi garddio carbon isel.
- 4 sesiwn ysgol.

4. Iaith Sgyrsiau Hinsawdd

Nodi rhwystrau iaith a chyfathrebu

Gall hyd yn oed fod yn heriol cael mynediad at weithgareddau lle gall pobl ag anableddau dysgu ymgysylltu â sgyrsiau am yr hinsawdd. Mae gweithgareddau garddio cymunedol, er enghraifft, yn anodd cael mynediad atynt oherwydd diffyg cefnogaeth, pryder ynghylch digwyddiadau cyhoeddus cymysg, mynediad gwael o ran hygyrchedd ac anhawster deall sut i ddod o hyd i gyfleoedd a chofrestru ar eu cyfer.

Ar ôl ymgysylltu, canfu Ymddiriedolaeth Innovate yn fuan fod iaith a therminoleg yn broblemau. Roedd y staff yn cydnabod fod angen iddynt siarad ag unigolion mewn ffordd syml. Nid oedd gan bron neb syniad o beth oedd 'ynni', felly, er bod y staff yn gallu siarad ag unigolion am sut roeddent yn defnyddio offer ar hyn o bryd a pha newidiadau bach y gallent eu gwneud, roedd y prosiect mewn perygl o fwrw ymlaen â rhywbeth a fyddai'n symbolaidd.

Mae ymgysylltiad â phrosiect Un Blaned wedi bod yn gadarnhaol ar draws pob canlyniad, er bod heriau wedi'u profi o dan Ganlyniad 3, Teithio Cynaliadwy. Mae Ymddiriedolaeth Innovate yn credu bod hyn oherwydd amrywiaeth o ffactorau. Gall diogelwch fod yn bryder a gall hyder yn gyffredinol fod yn isel. Mae rhai pobl ag anableddau dysgu yn tueddu i ffafrio defnyddio car, naill ai oherwydd ei fod yn diwallu eu hanghenion hygyrchedd orau, neu oherwydd ei fod yn cynrychioli rhywbeth cadarnhaol yn eu bywydau, fel annibyniaeth.

Sut aeth y prosiect i'r afael â'r rhwystrau.

Mae Ymddiriedolaeth Innovate yn darparu cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu gymryd rhan mewn sgyrsiau hinsawdd. Mabwysiadir ymagwedd **"seiliedig ar gryfderau"**, gan weithio gyda phobl o safbwynt eu bywydau eu hunain.

Mae Ymddiriedolaeth Innovate yn adrodd am lawer mwy o gefnogaeth pan fydd unigolion yn gallu deall manteision cymryd camau gweithredu am y tro cyntaf, er enghraifft y bydd defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn arbed arian ac efallai'n eu galluogi i fforddio cynilo i brynu eitem benodol. Mae manteision penodol, pendant wedi gwneud unigolion yn fwy agored i drafod newid hinsawdd ac yn fwy agored i symud ymlaen i feddwl am sut y gallai effeithio ar eu cymuned, y DU, a thu hwnt.

Cyfranogwyr Innovate yn trafod newid hinsawdd

Mae'r ymagwedd a fabwysiadwyd gan y prosiect yn bendant yn ceisio i Ymddiriedolaeth Innovate fynd at y cyfranogwyr, boed hynny i'w cartref neu leoliad maen nhw eisoes yn ei fynychu yn ystod yr wythnos (er enghraifft canolfan ddydd), yn hytrach na cheisio cael cyfranogwyr i ddod ac ymuno â gweithgaredd allan yn y gymuned. Mae Ymddiriedolaeth Innovate yn teimlo bod yr ymagwedd hon wedi eu galluogi i wneud y prosiect yn llawer mwy hygyrch a chynhwysol. Maent yn adrodd niferoedd ymgysylltu llawer uwch o ganlyniad ac wedi gallu ymgysylltu ag unigolion anoddach eu cyrraedd.



Mae llyfryn Awgrymiadau Gorau Hawdd ei Ddeall wedi'i gynhyrchu sy'n amlinellu ffyrdd syml y gall pobl atal newid hinsawdd.

severn wye

Mae adnoddau dysgu wedi'u hysgrifennu mewn iaith syml gyda llawer o ddelweddau sy'n cefnogi unigolion i fyfyrio ar eu hymddygiadau cyfredol o ran defnyddio ynni. Mae llyfrynnau Hawdd eu Deall wedi'u hysgrifennu am Ynni, Hinsawdd a Beth yw Newid Hinsawdd.





Mae'r llyfrynnau'n defnyddio iaith syml a lluniau i esbonio cysyniadau anodd.



Mae'r adnoddau'n cael eu hadolygu'n gyson ac maent wedi cael eu symleiddio ers dechrau'r prosiect. Mae hyn yn sicrhau bod pobl yn deall cysyniadau sylfaenol allweddol yn gyntaf–megis "Beth mae ynni'n ei olygu?"– cyn symud ymlaen i archwilio ynni mewn cyd-destunau penodol, fel ynni trydanol.

Mae'r sesiynau'n ddiddorol, gan ymgorffori elfennau hwyliog a dychmygus, fel gwahodd cyfranogwyr i fod yn "helwyr fampiriaid ynni." Mae'r ymagweddau rhyngweithiol hyn wedi helpu i ddod â'r cynnwys yn fyw a hybu ymgysylltiad.

Defnyddir heriau fel ffordd o annog pobl ac i barhau i ennyn eu diddordeb. Mae Ymddiriedolaeth Innovate wedi datblygu'r syniad o "helwyr fampiriaid ynni" fel her i gyfranogwyr yn dilyn ymweliad â'u cartref. Mae'r her yn cynnwys nodi pa offer neu ymddygiadau sy'n sugno ynni (fel fampiriaid) o'r cartref ac annog cyfranogwyr i fynd ar drywydd ymddygiadau newydd.



'Mae S wedi cadw at ei heriau arbed ynni ac mae hi bellach yn rhagorol yn ôl y staff ynglŷn â diffodd yr holl oleuadau. Mae hi'n gwella am beidio â gadael ei ffôn ar wefr drwy'r amser ac mae hi'n mynd i ddechrau ceisio cymryd cawodydd byrrach.'

'Mae C yn aml yn adrodd ar ba mor dda mae hi'n gwneud ar ei heriau a sut mae hi'n annog eraill lle mae hi'n byw i wneud yr un peth. Mae hi hefyd wedi cael ei rhieni a'i chefnder i gymryd rhan.'

Dyfyniadau o Adroddiadau Ymddiriedolaeth Innovate

Defnyddiwyd cyfarfodydd grŵp cyfoedion, sy'n cynnwys pobl ag anableddau dysgu sydd â diddordeb yn yr amgylchedd, fel ffordd o drafod pa iaith a ddefnyddir wrth esbonio newid hinsawdd a gweithredu ar yr hinsawdd. Ym Mlwyddyn 1, cymerodd 30 o bobl ran mewn dros 19 o gyfarfodydd grŵp cyfoedion.

Mae teithiau i gyfleuster Dŵr Gwastraff Dŵr Cymru yng Nghilfynydd ac i waith ynni solar ac adnewyddadwy Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyflwyno cysyniadau gwastraff ac ynni mewn ffordd weledol a phrofiadol.

Llwyddiannau mewn sgyrsiau hinsawdd

Mae prosiect Un Blaned wedi rhoi'r cyfle, yr iaith a'r hyder i bobl siarad mewn sgyrsiau hinsawdd. Mae Ymddiriedolaeth Innovate yn siarad am ymdeimlad o gyfranogiad sydd wedi deillio o hynny.

'Dwi'n* teimlo na alla i gymryd rhan mewn trafodaethau am newid hinsawdd.** ***Dwi ddim yn meddwl y bydd pobl yn gwrando arna i, felly a dweud y gwir, dwi ddim yn trafferthu.' - Cyfranogwr.

"Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig iawn ein bod ni'n gofalu am ein planed gan mai dim ond yr un hon sydd gennym ni y gallwn ni fyw arni. Ni ddylem ni wastraffu ynni na gwneud y ddaear yn fudr i eraill, dylem ni ofalu am natur. Dydw i ddim eisiau iddi fynd yn rhy boeth fel na allwn ni fyw yma. Gwnaeth y sesiynau fi'n hapus ac yn teimlo'n dda am yr hyn y gallaf ei wneud i achub y blaned."– Cyfranogwr.

Mae'r hyder hwn wedi arwain at newid ymddygiad a gwelliannau i lesiant drwy gael y sgiliau i deithio'n annibynnol. Mae pobl yn defnyddio'r iaith hon i ledaenu negeseuon i eraill.

"Roeddwn i wrth fy modd yn cymryd rhan ac yn dysgu gyda fy ffrindiau. Rwyf am ddweud wrth fy holl ffrindiau a theulu beth rydw i wedi'i ddysgu a pham y dylen nhw newid yr hyn maen nhw'n ei wneud er mwyn i ni i gyd allu bod yn fwy diogel." – Cyfranogwr

"Mae'n debyg y byddaf yn rhoi cynnig arni drwy ddweud wrth ffrindiau a theulu i geisio achub y blaned gan ei bod hi'n bwysig, ond efallai na fyddan nhw'n gwrando, felly byddaf yn ceisio eto nes iddyn nhw wneud hynny." – Cyfranogwr

Mae Ymddiriedolaeth Innovate yn defnyddio eu dysgu i weithio gyda Cynnal Cymru a'r Prosiect Llythrennedd Carbon i ddatblygu fersiwn hygyrch o'r Hyfforddiant Llythrennedd Carbon sefydledig. Dyma'r tro cyntaf i'r cwrs gael ei addasu ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

Heriau mewn sgyrsiau hinsawdd

Mae Ymddiriedolaeth Innovate wedi adlewyrchu bod gallu unigolyn i newid ei ymddygiad yn cael ei ddylanwadu'n gryf gan y lefel o reolaeth sydd ganddo dros ei fywyd ei hun. Yn aml, mae llwyddiant yn dibynnu ar a yw ei rwydweithiau cymorth yn barod ac yn gallu eu helpu i wneud newidiadau, a ydynt hwy eu hunain yn deall pwysigrwydd y newidiadau, ac a yw'r newidiadau hyn yn flaenoriaeth bersonol. Maent yn tynnu sylw at y ffaith bod rhai cyfranogwyr yn byw mewn llety a rennir, a all fod naill ai'n gefnogaeth neu'n rhwystr, yn enwedig pan fo safbwyntiau gwrthgyferbyniol yn bodoli neu pan fo staff dan bwysau wrth ddarparu gofal cymhleth i nifer o bobl.

Mae ymgysylltiad ar draws yr holl ganlyniadau wedi bod yn gadarnhaol ond roedd ymgysylltiad cynnar â Chanlyniad 3: Teithio Cynaliadwy yn is i ddechrau. Mae Ymddiriedolaeth Innovate yn credu bod hyn oherwydd hyder ac ofn colli annibyniaeth fel y disgrifir yn yr adran rhwystrau uchod. Mae ymagweddau newydd fel hyrwyddo rhannu ceir yn cael eu hystyried.

5 Dysgu Allweddol

Gellir crynhoi'r dysgu allweddol am iaith a chyfathrebu o brosiect Un Blaned Ymddiriedolaeth Innovate fel a ganlyn.

- **Defnyddiwch grwpiau cyfoedion** fel ffordd o ddylunio adnoddau prosiect a chyfathrebu.

- **Defnyddiwch iaith syml** mewn adnoddau gan gynnwys defnyddio adnoddau llawer symlach sy'n mynd yn ôl at hanfodion beth yw ynni a beth mae hyn yn ei olygu yng nghyd-destun cartref rhywun ei hun.

- **Mabwysiadu ymagwedd "seiliedig ar gryfderau".** Mae Ymddiriedolaeth Innovate wedi dangos, drwy ddarparu gweithgareddau addysgol hygyrch, wedi'u teilwra, bod unigolion yn cael eu galluogi i ymgysylltu a gweithredu mewn ffordd sy'n ystyrlon iddynt. Mae Ymddiriedolaeth Innovate wedi ceisio sicrhau bod cysyniadau fel newid hinsawdd yn gwneud synnwyr i unigolion yng nghyd-destun eu bywydau eu hunain cyn ceisio siarad am effaith hinsawdd ar bobl eraill neu'r byd ehangach.

- **Defnyddiwch heriau a gemau syml** fel ffordd o gyfathrebu ac annog gweithredu cadarnhaol.

Ynglŷn â rhaglen Camau Cynaliadwy Cymru - Grantiau Gweithredu ac Egin

Caiff Camau Cynaliadwy Cymru ei gyflwyno gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a'i gefnogi gan arian o'r Cynllun Asedau Segur. Mae Grantiau Gweithredu a Grantiau Egin yn ddwy o bedair rhaglen Camau Cynaliadwy Cymru. Maent yn cefnogi ymrwymiad Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yng Nghymru:

- i greu dyfodol cynaliadwy
- i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd sydd eisiau gweithredu ar newid hinsawdd.

Nod **Grantiau Egin** (2023–2030) yw helpu grwpiau cymunedol i weithredu ar newid hinsawdd a byw mewn ffordd fwy cynaliadwy. Mae ariannu ar gael hyd at £15,000. Mae ar agor i grwpiau sy'n derbyn cefnogaeth gan Gamau Cynaliadwy Cymru – Gwasanaeth Mentora Egin.

Nod **Grantiau Gweithredu** (2022–2028) yw mynd i'r afael â newid hinsawdd mewn cymunedau a helpu pobl i fyw mewn ffordd fwy cynaliadwy. Dyfarnwyd arian i 14 o brosiectau, yn amrywio o £10,001 i £350,000. Gallwch ddysgu mwy am Grantiau Egin a Grantiau Gweithredu ar wefan y Gronfa.

Ynglŷn â'r gwerthusiad

Penodwyd Asiantaeth Ynni Hafren Gwy, gyda Liz Bickerton Consulting, gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn 2022 i werthuso Camau Cynaliadwy Cymru – Grantiau Gweithredu a Grantiau Egin. Nod y tîm gwerthuso yw cynhyrchu dysgu a thystiolaeth o effaith ar draws y rhaglen, gan ganolbwyntio ar sut mae'r grantiau'n ymgysylltu â phobl a grwpiau newydd mewn gweithredu ar yr hinsawdd, yn ysgogi newid ymddygiad, ac yn lleihau allyriadau carbon. Bydd y gwerthusiad yn rhedeg tan 2027.

Ynglŷn â'r astudiaeth achos hon

Dyma un o dair astudiaeth achos prosiect o ymchwil a archwiliodd rwystrau iaith a chyfathrebu wrth ymgysylltu â chymunedau ar newid hinsawdd, a sut mae prosiectau wedi gweithio i'w goresgyn. Crynhoir y dulliau a'r canfyddiadau yn Adroddiad Mewnwelediad #2 *"Sero Net – Beth Net?"*.